# PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Llun, 29 Medi 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Martyn Holland, Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd), Jason McLellan (Cadeirydd) a Mr P. Whitham (Aelod Lleyg).

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies a/ac Barbara Smith yn bresennol fel arsylwyr.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Prif Gyfrifydd (RW), Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru (AV a NR) a Gweinyddwr Phwyllgor (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Joan Butterfield a/ac Julian Thompson-Hill

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni fu i unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod.

## 3 MATERION BRYS

No items were raised which in the opinion of the Chair, should be considered at the meeting as a matter of urgency pursuant to Section 100B(4) of the Local Government Act, 1972.

## 4 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, a oedd yn rhoi diweddariad ynglŷn â Chynllun Gwella Trefn Lywodraethol y Cyngor, ac a oedd yn deillio o 'ddatganiad llywodraethu blynyddol' y Cyngor yn 2013/14 - 'Darparu llywodraethu da a gwelliant parhaus', wedi cael ei ddosbarthu'n flaenorol.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad a oedd yn manylu ar y cynnydd sy'n digwydd o ran rhoi'r gwahanol gamau gweithredu sydd wedi eu cynnwys yng Nghynllun Gwella Trefn Lywodraethol y Cyngor ar waith, er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor drefn lywodraethol gadarn ac effeithiol ar waith.

Roedd Datganiad Llywodraethu Blynyddol diweddaraf y Cyngor, 'Darparu llywodraethu da a gwelliant parhaus', yn darparu hunanasesiad tryloyw a chytbwys o drefn lywodraethol y Cyngor, ac yn amlygu unrhyw wendidau llywodraethu arwyddocaol ac unrhyw feysydd eraill y mae angen eu gwella.

Roedd meysydd gwella wedi eu cynnwys yng Nghynllun Gwella'r Drefn Lywodraethol, sydd i'w weld yn Atodiad 1, a oedd yn cynnig camau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau, y swyddogion sy'n gyfrifol am y camau gweithredu hynny ac amserlenni. Nid oedd y Cynllun yn gwbl gyflawn gan nad yw pob diweddariad cynnydd wedi cael eu darparu. Pan fo ymatebion wedi dod i law, mae'r camau gweithredu naill ai'n gyflawn neu ar y gweill. Roedd y Pwyllgor wedi derbyn adroddiadau diweddaru ar wahân a oedd yn cynnwys rhai yr Adran Adnoddau Dynol Strategol, Sefydliadau Hyd-Braich a'r Adran Caffael Strategol.

Er nad yw hunanasesiad y 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol' ei hun yn cyfrannu'n uniongyrchol at Flaenoriaethau Corfforaethol, mae'n darparu asesiad a sicrwydd ynglŷn â chyflawni'r Cynllun Corfforaethol, perfformiad gweithredol ac ariannol y Cyngor, y drefn lywodraethol, ymgysylltu â'r gymuned ac ati, y mae pob un ohonynt yn cyfrannu tuag at gyflawni'r Blaenoriaethau Corfforaethol.

Pe na bai Cynllun Gwella'r Drefn Lywodraethol yn cael ei weithredu, byddai gwendidau yn aros yn nhrefn lywodraethol y Cyngor, a allai arwain at:-

- adroddiadau rheoleiddiol niweidiol;
- defnydd gwael o arian cyhoeddus;
- methiant i wella meysydd corfforaethol a meysydd gwasanaeth allweddol;
- colli hyder budd-ddeiliaid; a
- effaith andwyol ar enw da'r Cyngor.

Mewn ymateb i gais gan Mr P. Whitham, yn sôn y dylid cyfarch y ffaith nad oes Strategaeth Gaffael erbyn diwedd mis Tachwedd 2014, cytunodd y Pwyllgor y gellid darparu adroddiad cynnydd ar lafar yng nghyfarfod mis Tachwedd y Pwyllgor cyn derbyn adroddiad ysgrifenedig ym mis Rhagfyr 2014. Gofynnodd yr Aelodau hefyd fod adroddiadau cynnydd ysgrifenedig yn cael eu darparu gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, yng nghyfarfod mis Tachwedd, mewn perthynas â'r meysydd hynny nad oedd wedi darparu ymatebion o fewn y terfynau amser a roddwyd. Cytunodd y Cynghorydd B.A. Smith i drafod y pryderon a godwyd gan y Pwyllgor gyda'r Pennaeth Busnes, Gwella a Moderneiddio.

***PENDERFYNWYD*** *- bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-*

*(a) yn derbyn yr adroddiad, ac yn*
*(b) gofyn am ddiweddariad cynnydd ar lafar yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2014 mewn perthynas â'r Strategaeth Caffael, ac yn*
*(c) yn gofyn i'r Pennaeth Archwilio Mewnol yn cyflwyno adroddiadau ysgrifenedig i gyfarfod mis Tachwedd, mewn perthynas â'r meysydd hynny nad oedd wedi darparu ymatebion o fewn yr amserlenni a roddwyd.*

***(IB i Weithredu)***

## 5 CYMERADWYO DATGANIAD CYFRIFON 2013/14

Roedd copi o adroddiad gan y Prif Gyfrifydd wedi ei ddosbarthu gyda phapurau'r cyfarfod, ynghyd â Datganiad Cyfrifon 2013/14 ac Adroddiad Archwilio'r Datganiadau Ariannol, a gynhyrchwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru.

Cyflwynodd Pennaeth yr Adran Gyllid ac Asedau'r adroddiad a oedd yn cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon i'w gymeradwyo'n ffurfiol. Tynnodd sylw at bwysigrwydd a natur gymhleth y ddogfen ac eglurodd y byddai'r terfynau amser ar gyfer cynhyrchu Datganiadau Cyfrifon yn dynnach yn y dyfodol. Mae gan y Cyngor ddyletswydd statudol i gynhyrchu Datganiad Cyfrifon sy'n cydymffurfio â safonau cyfrifeg cymeradwy, ac mae'n ofynnol bod Aelodau Etholedig yn cymeradwyo'r cyfrifon archwiliedig yn ffurfiol ar ran y Cyngor.

Roedd Datganiadau Ariannol 2013/14 wedi cael eu cymeradwyo gan y Prif Swyddog Cyllid, yn amodol ar archwiliad, ar 30 Mehefin 2014. Cafodd fersiwn ddrafft y Datganiad Cyfrifon ei chyflwyno i'r Pwyllgor ar 2 Gorffennaf 2014, pan ddarparwyd trosolwg o fersiwn ddrafft y Datganiad Cyfrifon gan y Prif Gyfrifydd ac eglurhad o'r broses sy'n sail iddo. Mae'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo'r Cyfrifon archwiliedig, sydd i gynnwys barn yr Archwilydd allanol, yn ffurfiol erbyn diwedd mis Medi.

Cafodd y Datganiad Cyfrifon ei gynhyrchu'n unol â'r Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol, ac roedd manylion ynglŷn â hynny wedi eu cynnwys yn yr adroddiad. Mae Sefydliad Siartredig Cyllid a Chyfrifeg Cyhoeddus yn cynhyrchu Cod Ymarfer ar Gyfrifeg Awdurdodau Lleol, yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol ac mae'r Cyngor wedi paratoi cyfrifon 2013/14 yn unol â'r Cod hwnnw. Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys barn archwilio ddiamod a thystysgrif archwilio, ac mae wedi cael ei ryddhau i'w archwilio ac mae ar gael i'r cyhoedd fwrw golwg drosto ac nid oes unrhyw sylwadau wedi dod i law. Bu Swyddfa Archwilio Cymru yn archwilio'r cyfrifon a byddant yn cyflwyno trosolwg o'u canfyddiadau ac asesiad o'r broses mewn adroddiad. Arweiniodd y broses archwilio at rai newidiadau technegol ac at gywiriadau a newidiadau eraill y cyfeiriwyd atynt yn adroddiad yr Archwilydd.

Roedd cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon yn ategu stiwardiaeth ariannol a threfn lywodraethol y Cyngor ac felly yn cefnogi holl wasanaethau a blaenoriaethau'r Cyngor. Mae Swyddfa Archwilio Cymru wedi gweithio'n agos â'r Tîm Cyllid er mwyn sicrhau fod yr archwiliad yn cael ei gwblhau yn llwyddiannus ac mewn modd amserol.

Roedd y Datganiad Cyfrifon unwaith eto wedi cael barn archwilio ddiamod, a oedd yn gyflawniad sylweddol o ystyried graddfa a chymhlethdod y Cyfrifon. Bydd y gweithdrefnau mewnol yn cael eu hadolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn parhau i ddarparu adroddiadau ariannol o ansawdd da.

Cafwyd cyflwyniad gan y Prif Gyfrifydd ynglŷn â'r Datganiad Cyfrifon a oedd yn:–

- darparu trosolwg o'r cyfrifon a'r prif ddatganiadau ariannol.

- darparu amlinelliad o'r prosesau dan sylw gan gynnwys gofynion ac amserlenni deddfwriaethol ynghyd â rôl yr Aelodau yn y broses

- dangos sut yr oedd ffigurau a adroddwyd yn y Cyfrif Refeniw wedi cael eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol.

- amlygu’r meysydd allweddol y dylid rhoi sylw iddynt yn cynnwys Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn; Datganiad Incwm a Gwariant; y Fantolen a'r Datganiad Llif Arian.

- nodi fod gofyniad statudol i gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon erbyn 30 Medi, 2014.

Nododd y Prif Gyfrifydd nad oedd unrhyw faterion sylweddol wedi dod i’r amlwg yn sgil archwiliad Swyddfa Archwilio Cymru a oedd yn rhoi sicrwydd inni o ran prosesau a chydymffurfiaeth.

Cafwyd crynodeb manwl gan gynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (AV) o Adroddiad Archwilio’r Datganiadau Ariannol a chyfeiriodd at rôl Swyddfa Archwilio Cymru o fewn y broses yn ei chyfanrwydd ac at y cyfrifoldeb sydd ganddynt i adrodd ynglŷn â’r datganiadau ariannol. Cyflwynodd drosolwg o ganfyddiadau'r adroddiad a chyfeiriodd yn benodol at y canlynol:–

- Roedd yr Archwilydd a Benodwyd yn bwriadu cyhoeddi adroddiad archwilio diamod unwaith y caiff Llythyr Sylwadau ei ddarparu.

- Cafwyd crynodeb o'r cywiriadau a wnaed i fersiwn ddrafft y datganiad ariannol, Rhif 10, Tudalen 16, Atodiad 3. Nid oedd y rhain yn sylweddol ac nid oeddent wedi effeithio ar gasgliadau’r adroddiad.

- Cyfeiriwyd at ansawdd y papurau ategol a ddarparwyd, a mynegwyd gwerthfawrogiad i'r Tîm Cyllid am eu cefnogaeth a'u cymorth.

- nid oedd unrhyw faterion pwysig eraill yn codi o'r archwiliad.

- roedd yr adroddiadau ariannol a fersiynau drafft y datganiadau ariannol wedi eu paratoi i safon uchel ac nid oedd unrhyw wendidau perthnasol wedi cael eu nodi yn y rheolyddion mewnol.

- ni ellir ardystio cau'r archwiliad hyd nes bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi ymateb yn ffurfiol i ohebiaeth a dderbyniwyd gan y cyhoedd mewn perthynas â'r cyfrifon drafft.

- cafwyd cadarnhad o annibyniaeth a gwrthrychedd y gwaith a wnaed.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd ynghylch materion yn ymwneud â phroses y Gwasanaethau Eiddo o brisio asedau, darparodd Pennaeth yr Adran Cyllid ac Asedau fanylion am y broses ac aeth ati i sicrhau’r Aelodau fod gwaith ar y gweill ar hyn o bryd i fynd i'r afael â'r mater hwn. Cafwyd cadarnhad gan Swyddfa Archwilio Cymru nad oedd unrhyw broblemau mewn perthynas ag ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd. Cafwyd cadarnhad hefyd, yn dilyn gwirio samplau, fod y ‘gwiriad ymadael' yn cydymffurfio.

Cafwyd yr ymatebion canlynol i gwestiynau gan Aelodau:-

- Amlinellodd y Prif Gyfrifydd y broses, a'r gwaith sy'n cael ei wneud, mewn perthynas â gwybodaeth am y gronfa bensiwn sy'n ymwneud â gofyniad Safon Cyfrifo Rhyngwladol 19 i gyrff sy’n cynrychioli gweithwyr ddatgelu manylion eu cyfrifon mewn perthynas ag asedau, rhwymedigaethau a thrafodion. Amlygodd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru bwysigrwydd gwneud yn siŵr bod gwerthusiad cywir o'r diffyg yn cael ei ddarparu.
- Eglurodd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru bod a wnelo’r prif ysgogiad dros newid y terfynau amser ar gyfer y broses o gau Datganiadau Cyfrifon â menter gyfrifon y Llywodraethau yn ei chyfanrwydd, a oedd yn wreiddiol yn un o fentrau’r Trysorlys. Cadarnhawyd y byddai'n rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd gadw at y terfynau amser newydd. Mynegodd Pennaeth yr Adran Cyllid ac Asedau farn na fyddai cwtogi’r terfynau amser yn gwella cywirdeb nac ansawdd y ffigurau a gynhyrchir.
- Cyfeiriwyd at y ffigurau adeiladu mewn perthynas â Harbwr y Foryd o ganlyniad i gam-ddosbarthu costau y gellir eu priodoli i'r prosiect.
- Roedd yr addasiad yr oedd angen ei wneud i'r gofrestr asedau sefydlog i adlewyrchu prisiad cywir Safle Ailgylchu Rhyl wedi codi o ganlyniad i ddarparu'r ffigwr ail-werthuso.
- Darparwyd manylion am y cronfeydd wrth gefn sy’n cael eu dal gan yr Awdurdod ac am ganlyniadau eu defnyddio, y rhai a glustnodwyd a’r rhai cyffredinol, gan Bennaeth yr Adran Cyllid ac Asedau.

Mynegodd y Pwyllgor foddhad bod lefel uchel o sicrwydd wedi ei ddarparu o ran proses a chydymffurfiaeth cyfrifo ariannol. Gofynnodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor fod Pennaeth yr Adran Cyllid ac Asedau yn cyfleu eu gwerthfawrogiad i'r staff yn y Tîm Cyllid am y gwaith rhagorol a wnaed.

***PENDERFYNWYD*** *- Bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-*

*(a) yn cymeradwyo Datganiad Cyfrifon 2013/14, sef Atodiad 1 yr adroddiad, ac*
*(b) yn gofyn i’r Cadeirydd ac i’r Prif Swyddog Ariannol lofnodi’r Cyfrifon a’r Llythyr Sylwadau.*

***[JMc a PM i weithredu]***

Daeth y Cyfarfod i ben am 11.00 a.m.